# CASE STUDY 1: SADDAM HUSSEIN AND IRAQ

## Who?

Saddam Hussein was President of Iraq from 1979 to 2003. His Baath Party was the only permitted political party during that time.

## What?

Saddam's rule was characterised by acts of murder and repression, including:

- **1982**: The murder of over 100 civilians at Dujail, and the imprisonment or torture of 1,500 others, following an attempt to assassinate Saddam.
- **1986-89**: The al-Anfal campaign in southern Kurdistan. Aerial bombing, chemical attacks and other methods were used to kill at least 50,000 Kurds, most of them civilians. This included a poisonous gas attack on the town of Halabja, which killed up to 7,000 people.
- **1991**: Forcing tens of thousands of Marsh Arabs to move from lowlands in southern Iraq, by diverting rivers and causing desertification.



## Justice?

Following a US-led invasion of Iraq, the Baath government was removed from power in 2003. Many of its key members have been captured, including Saddam. An Iraqi tribunal is trying people accused of serious crimes during his regime.

The most significant trial focused on the Dujail incident, and resulted in the conviction of the former President and six others. Three defendants, including Saddam, were sentenced to death, while the others have been given prison sentences. Although many celebrate the fact that Saddam has been brought to justice, others believe that the use of the death penalty is damaging to the 'new' Iraq's record on human rights.

# CASE STUDY 2: RWANDAN GENOCIDE

## Who?

The *Interahamwe* and *Impuzamugambi* were two militias formed by the Hutu, the largest ethnic group in the African country of Rwanda.

## What?

These two groups were mainly responsible for the Rwandan genocide, which took place in 1994. Civil war had broken out in 1990, when exiled Rwandans of Tutsi ethnicity tried to force the government to improve racial integration. President Juvénal Habyarimana devised plans to wipe out all Tutsis and any Hutus who sympathised with them. His assassination in April 1994 triggered the carrying out of these plans. Over 800,000 Tutsis and Hutus were killed over the following 3 months.

At the start of the genocide, the UN cut its troop numbers in Rwanda by 90%. Its member states could not agree whether to label the killings as 'genocide', and no further UN troops were deployed there until the end of June that year.

## Justice?

In 1994, the UN set up an International Criminal Tribunal for Rwanda to prosecute crimes committed during the genocide. So far, it has completed 21 trials and convicted 28 people. Another 11 trials are in progress, but 18 suspects are still at large.

The Tribunal's notable cases include:

- The conviction of **Jean Kambanda**, Rwanda's Prime Minister at the time of the genocide. He is the only head of government ever to have pleaded guilty to genocide.
- A trial of those responsible for the '**hate media**' which encouraged the genocide. Those in charge of newspapers and radio stations have been given long prison sentences.

# ASTUDIAETH ACHOS 1: SADDAM HUSSEIN AC IRAC

## Pwy?

Roedd Saddam Hussein yn Arlywydd ar Irac rhwng 1979 a 2003. Ei blaid ef, y Baath, oedd yr unig blaid wleidyddol a ganiateid yn ystod y cyfnod hwnnw.

## Beth?

Nodweddid llywodraeth Saddam gan achosion o lofruddio a gormes, gan gynnwys:

- **1982**: Llofruddio dros 100 o sifiliaid yn Dujail, a charcharu neu arteithio 1,500 o rai eraill, yn sgil ymgais i ladd Saddam.
- **1986-89**: Ymgyrch al-Anfal yn rhan ddeheuol Cwrdistan. Defnyddiwyd bomio o'r awyr, ymosodiadau gyda chemegau a dulliau eraill i ladd o leiaf 50,000 o Gwrdiaid, a'r rhan fwyaf yn sifiliaid. Ymosodwyd ar dref Halabja gyda nwy gwenwynig, gan ladd hyd at 7,000 o bobl.
- **1991**: Gorfodi degau o filoedd o Arabiaid y Corsydd i adael iseldir rhan ddeheuol Irac, trwy ddargyfeirio afonydd a chreu diffeithwch.

## Cyfiawnder?

Wedi i'r Unol Daleithiau arwain ymosodiad ar Irac, disodlwyd y llywodraeth Baath yn 2003. Cipiwyd llawer o'i haelodau allweddol, gan gynnwys Saddam ei hun. Mae tribiwnlys yn Irac wrthi yn rhoi ar brawf bobl a gyhuddwyd o droseddau difrifol yn ystod ei oruchwyliaeth.

Canolbwyntiai'r achos pwysicaf ar y digwyddiad yn Dujail, ac arweiniodd at euogfarn yn erbyn y cyn-Arlywydd a chwech o bobl eraill. Dedfrydwyd tri o'r diffynyddion, gan gynnwys Saddam, i farwolaeth, a chafodd y lleill eu dedfrydu i gyfnod yn y carchar. Er i lawer ddathlu'r ffaith i Saddam gael ei haeddiant, yn ôl eraill mae defnyddio'r gosb eithaf yn cymylu record yr Irac 'newydd' ar hawliau dynol.

# ASTUDIAETH ACHOS 2: HIL-LADDIAD YN RWANDA

## Pwy?

*Interahamwe* ac *Impuzamugambi*, dau filisia a gynulliwyd gan yr Hutu, y garfan ethnig fwyaf yng ngwlad Rwanda yn Affrica.

## Beth?

Y ddwy garfan hon oedd yn bennaf gyfrifol am yr hil-laddiad yn Rwanda, a ddigwyddodd ym 1994. Cychwynnodd rhyfel cartref ym 1990, pan geisiodd Rwandiaid alltud o garfan ethnig y Tutsi i orfodi'r llywodraeth i wella integreiddio hiliol. Dyfeisiodd yr Arlywydd Juvénal Habyarimana gynlluniau i ladd y Tutsi ac unrhyw Hutu oedd yn cydymdeimlo â nhw. Ei lofruddiaeth ef ym mis Ebrill 1994 oedd y sbardun i wireddu'r cynlluniau hyn. Lladdwyd dros 800,000 o Tutsïaid a Hutuiaid yn ystod y 3 mis dilynol.

Ar gychwyn yr hil-laddiad, cwtogodd y CU ar niferoedd ei milwyr yn Rwanda o 90%. Ni allai yr aelod-wladwriaethau gytuno a ddylid galw'r lladd yn 'hil-laddiad' ai peidio, ac ni chafodd lluoedd pellach eu hanfon yno gan y CU hyd ddiwedd mis Mehefin y flwyddyn honno.

## Cyfiawnder?

Ym 1994, sefydlodd y CU Dribiwnlys Troseddol Rhyngwladol dros Rwanda i erlyn troseddau a gyflawnwyd yn ystod yr hil-laddiad. Hyd yma, mae wedi cwblhau 21 achos ac wedi dwyn euogfarn yn erbyn 28 o bobl. Mae 11 achos pellach ar y gweill, ond mae 18 o bobl sydd dan amheuaeth o gyflawni troseddau yn dal i fod â'u traed yn rhydd.

Dyma rai o achosion nodedig y Tribiwnlys:

- Dwyn euogfarn yn erbyn **Jean Kambanda**, Prif Weinidog Rwanda ar adeg yr hil-laddiad. Ef yw'r unig brif weinidog erioed i bledio'n euog i hil-laddiad.
- Achos yn erbyn y rhai hynny a oedd yn gyfrifol am y '**cyfryngau llawn casineb**' a fu'n annog hil-laddiad. Cafodd y bobl hynny oedd yng ngofal papurau newydd a gorsafoedd radio eu dedfrydu i dreulio cyfnodau hir yn y carchar.

# CRIMES AGAINST HUMANITY

A crime against humanity is a crime committed on a large scale against a particular group of civilians. According to the International Criminal Court, this includes:

- Murder
- Genocide (actions intended to destroy a whole population)
- Enslavement
- Deporting or forcibly moving a population
- Imprisonment against the rules of international law
- Torture
- Rape and other serious sexual crimes
- Persecution on grounds such as race, religion or politics
- Forced disappearance (kidnap, imprisonment and sometimes execution)
- Apartheid (one racial group systematically oppressing another)

Crimes against humanity deprive people of some of their most fundamental human rights, including the rights to life, liberty, and a fair trial.

The term "crimes against humanity" was first used in 1915 by Britain, France and Russia, to describe Turkey's role in the Armenian Genocide. When trying Nazi criminals in the 1940s, the Nuremberg tribunal provided a detailed definition of crimes against humanity, which were committed "on a vast scale" during World War II. More recently, the term has been used to describe events in the former Yugoslavia and in the Darfur region of Sudan.

## What about war crimes?

There is some overlap between crimes against humanity and war crimes. The latter are crimes which occur during an armed conflict, breaching the Geneva Convention or other laws of war. Crimes against humanity can occur at any time – whether or not there is a war – and form a policy or a wide practice, rather than being isolated incidents.

## Achieving justice

Some crimes against humanity are dealt with by the countries in which they occur. In **South Africa**, for instance, human rights violations were handled by a Truth and Reconciliation Commission after the apartheid regime had ended. Saddam Hussein went on trial within **Iraq** for a number of crimes (see panel on left).

In other cases, crimes against humanity are tried in a court elsewhere. For example, the United Nations (UN) created the **International Criminal Tribunal for the Former Yugoslavia**. It operates in the Netherlands, and has tried suspects including former Serbian President Slobodan Milošević.

In 2002 the UN established the **International Criminal Court (ICC)** as a permanent, independent body. It acts when national courts are unwilling or unable to investigate offences (including crimes against humanity). Cases can be referred to the ICC by one country, by the UN Security Council, or by the ICC's own prosecutor.

# TROSEDDAU YN ERBYN Y DDYNOLRYW

Trosedd ar raddfa fawr a gyflawnir yn erbyn grŵp arbennig o sifiliaid yw trosedd yn erbyn y ddynolryw. Yn ôl y Llys Troseddau Rhyngwladol, mae hyn yn cynnwys:

- Llofruddio
- Hil-laddiad (gweithredu gyda'r bwriad o ddileu poblogaeth gyfan)
- Caethiwo
- Caethgludo neu orfodi poblogaeth i symud
- Carcharu yn erbyn rheolau'r gyfraith ryngwladol
- Arteithio
- Trais a throseddau rhywiol difrifol eraill
- Erlid ar sail megis hil, crefydd neu wleidyddiaeth
- Diflaniad dan orfodaeth (herwgipio, carcharu ac weithiau ddienyddio)
- Apartheid (un grŵp hil yn gormesu un arall yn systematig)

Mae troseddau yn erbyn y ddynolryw yn amddifadu pobl o rai o'u hawliau dynol mwyaf sylfaenol, gan gynnwys yr hawl i fywyd, rhyddid a phrawf teg o flaen y gyfraith.

Defnyddiwyd yr ymadrodd "troseddau yn erbyn y ddynolryw" yn gyntaf ym 1915 gan Brydain, Ffrainc a Rwsia i ddisgrifio rôl Twrci yn Hil-laddiad yr Armeniaid. Wrth rhoi ar brawf troseddwyr Natsïaidd yn y 1940au, crëwyd diffiniad manwl yn nhribiwnlys Nuremberg o droseddau yn erbyn y ddynolryw, a gyflawnwyd "ar raddfa anferth" yn ystod yr Ail Rhyfel Byd. Yn fwy diweddar, mae'r term wedi cael ei ddefnyddio i ddisgrifio digwyddiadau yn y cyn Iwgoslafia ac yn ardal Darfur o'r Siwdan.

## Beth am droseddau rhyfel?

Bydd yna orgyffwrdd weithiau rhwng troseddau yn erbyn y ddynolryw a throseddau rhyfel. Troseddau sy'n digwydd yn ystod gwrthdaro arfog yw troseddau rhyfel, ac maent yn torri Cytundeb Genefa neu gyfreithiau rhyfel eraill. Gall troseddau yn erbyn y ddynolryw ddigwydd ar unrhyw adeg – boed hi'n adeg rhyfel ai peidio – gan droi'n bolisi neu arfer cyffredin, yn hytrach na digwyddiadau unigol.

## Sicrhau cyfiawnder

Ymdrinnir â rhai troseddau yn erbyn y ddynolryw gan y gwleidydd lle maent wedi digwydd. Yn **Ne Affrica**, er enghraifft, Comisiwn Gwirioned a Chymod a fu'n ymdrin ag achosion o wyrdroi hawliau dynol wedi i'r gyfundrefn apartheid ddod i ben. Daethpwyd ag achos yn erbyn Saddam Hussein yn **Irac** ei hun ar sail nifer o droseddau (gwelir y panel ar y chwith).

Bryd arall, caiff troseddau yn erbyn y ddynolryw eu rhoi ar brawf mewn llys yn rhywle arall. Er enghraifft, creodd y Cenhedloedd Unedig (CU) **Y Tribiwnlys Troseddol Rhyngwladol ar gyfer Iwgoslafia Gynt**. Mae'n gweithredu yn yr Iseldiroedd, ac mae wedi rhoi ar brawf rhai sydd dan amheuaeth o gyflawni troseddau gan gynnwys cyn-Arlywydd Serbia, Slobodan Milošević.

Yn 2002 sefydlodd y CU y **Llys Troseddau Rhyngwladol (ICC)** fel corff annibynnol, parhaol. Mae'n gweithredu pan fydd llysoedd cenedlaethol yn anfodlon neu'n analluog i ymchwilio i droseddau (gan gynnwys troseddau yn erbyn y ddynolryw). Mae modd i wlad unigol, Cyngor Diogelwch y CU, neu erlynydd y Llys ei hunan gyfeirio achosion at y Llys.

# USEFUL WEBSITES / GWEFANNAU DEFNYDDIOL

| | |
|---|---|
| **news.bbc.co.uk** | Search for "Struggle for Iraq" for comprehensive information / Chwiliwch o dan "Struggle for Iraq" am wybodaeth gynhwysfawr |
| **www.amnesty.org.uk** | Amnesty International / Amnest Rhyngwladol |
| **www.apartheidmuseum.org** | Apartheid Museum in South Africa (includes teaching resources) / Yr Amgueddfa Apartheid yn Ne Affrica (mae'n cynnwys adnoddau dysgu) |
| **www.icc-cpi.int** | International Criminal Court / Y Llys Troseddau Rhyngwladol |
| **www.preventgenocide.org** | Global education and action network / Rhwydwaith addysgu a gweithredu byd-eang |
| **www.un.org/terrorism** | UN action against terrorism / Y CU yn gweithredu yn erbyn terfysgaeth |
| **www.unitedhumanrights.org** | United Human Rights Council (includes information about genocide) / Y Cydgyngor Hawliau Dynol (mae'n cynnwys gwybodaeth am hil-laddiad) |

# CLASSROOM ACTIVITY: THE 'WAR ON TERRORISM'

## Objective

- Students will consider why it is important to act against human rights abuses, and what can be done to prevent them

## Resources

- Background information (summary below; see en.wikipedia.org/wiki/War_on_Terrorism for related websites)
- Universal Declaration of Human Rights (booklet available from CEWC-Cymru)

## Room layout

- Students in groups of 2 or 3

## Time needed

- 50-60 minutes

## Objectives from PSE Framework – students will:

- "Be moved by injustice, exploitation and the denial of human rights"
- "Appreciate, reflect on and critically evaluate another person's point of view"

## Activity

- Hand out information about the War on Terrorism (use the summary below, or give each group information from a different source)
- Ask groups to discuss the following, then present their ideas to the class:
  - (a) Is there evidence of human rights being abused or denied during the War on Terrorism? Which human rights?
  - (b) Which side do you agree with in "What people say"? Does the truth lie somewhere in between the two sides of the argument?

## Plenary discussion

- Is the War on Terrorism justified? What else could we do about terrorism?
- Should we disallow some people's human rights in order to allow others theirs?
- Is poverty as much of a 'human rights abuse' as the actions of terrorists?
- Is there a difference between terrorism and other crimes against humanity, such as genocide?
- How could terrorism be prevented from starting, rather than tackling it when it arises?

## Background information

- On **11 September 2001**, Islamic extremists linked to a network called Al-Qaeda caused the deaths of 3,000 people in four terrorist attacks in the United States.
- Following the attacks, the United States announced a "**Global War on Terrorism**". It is intended to stop terrorists from attacking the US and its allies, to stop governments helping terrorists, and to spread freedom and democracy around the world. Many countries have aided US efforts, including the UK.
- The first major action was the **invasion of Afghanistan** in October 2001. This brought down the Taliban government, which had sheltered Osama bin Laden and other members of Al-Qaeda. In 2006, fighting continued between the Taliban, Afghan soldiers and foreign forces.
- The US claims that its **operations in Iraq** (see panel on left) form part of the war. Others dispute whether Saddam Hussein had links with organised terrorism, but attacks are now carried out regularly by insurgents in Iraq.
- Other areas of concern include: **Israel/Palestine**, where the Israeli government has approved many counter-terrorist measures (resulting in civilian deaths); **Syria** and **Lebanon**, which are thought to host several terrorist organisations; and **Indonesia**, where the Jemaah Islamiyah group has carried out bombings.

## What people say

"Military force is the best way of stopping terrorism."
"Defeating terrorism is the most important goal in the world today."
"All terrorism is a crime against humanity, and can never be justified."
"It's OK to use torture on terrorist suspects, because preserving other people's lives is more important."
"We should try negotiating with terrorists."
"Reducing global poverty is more important than tackling terrorism."
"Some terrorists are fighting to improve people's lives. We should call them freedom fighters."
"Torturing prisoners is a breach of human rights, and makes us just as bad as the terrorists."

# GWEITHGAREDD YSTAFELL DDOSBARTH: Y 'RHYFEL YN ERBYN TERFYSGAETH'

## Nod

- Bydd y disgyblion yn ystyried pam ei bod hi'n bwysig i weithredu yn erbyn gwyrdroi hawliau dynol, a'r hyn y gellir ei wneud i'w gadw rhag digwydd

## Adnoddau

- Gwybodaeth gefndir (crynodeb isod; gweler en.wikipedia.org/wiki/War_on_Terrorism am wefannau perthnasol)
- Y Datganiad Cyffredinol o Hawliau Dynol (llyfryn sydd ar gael gan CEWC-Cymru)

## Trefn yr ystafell

- Disgyblion fesul grwpiau o 2 neu 3

## Amser

- 50-60 munud

## Nodau o'r Fframwaith ABCh – bydd y disgyblion yn:

- "Cael profiadau teimladwy wrth glywed am anghyfiawnder, ecsploetio a gwrthod hawliau dynol"
- "Gwerthfawrogi safbwynt person arall a myfyrio arno a'i werthuso'n feirniadol"

## Gweithgaredd

- Dosbarthwch wybodaeth am y Rhyfel yn erbyn Terfysgaeth (defnyddiwch y grynodeb isod, neu rhowch wybodaeth o ffynhonnell wahanol i bob grŵp)
- Gofynnwch i'r grwpiau i drafod y canlynol, ac yna cyflwyno eu syniadau i'r dosbarth:
  - (a) Oes yna dystiolaeth bod hawliau dynol wedi cael eu gwyrdroi neu eu gwrthod yn ystod y Rhyfel yn erbyn Terfysgaeth? Pa hawliau dynol?
  - (b) Gyda pha farn ydych chi'n cytuno yn "Ym mhob pen y mae piniwn"? A yw'r gwir yn gorwedd rywle rhwng dau begwn y ddadl?

## Trafodaeth gyffredinol

- A oes cyfiawnhad i'r Rhyfel yn erbyn Terfysgaeth? Beth arall fedrwn ni ei wneud ynghylch terfysgaeth?
- A ddylem ni wrthod hawliau dynol rhai pobl er mwyn eu caniatáu i eraill?
- A yw tlodi'n llawn cymaint o 'wyrdroad ar hawliau dynol' ag yw gweithredoedd y terfysgwyr?
- Oes yna wahaniaeth rhwng terfysgaeth a throseddau eraill yn erbyn y ddynolryw, fel hil-laddiad?
- Ym mha ffordd y gellid cadw terfysgaeth rhag cychwyn, yn hytrach na mynd i'r afael â hi ar ôl iddi godi?

## Gwybodaeth gefndir

- Ar **11 Medi 2001**, achosodd eithafwyr Islamaidd oedd yn gysylltiedig â rhwydwaith o'r enw Al-Qaeda farwolaeth 3,000 o bobl mewn 4 ymosodiad terfysgol yn yr Unol Daleithiau.
- Wedi'r ymosodiadau, cyhoeddodd yr Unol Daleithiau "**Ryfel Byd-eang yn erbyn Terfysgaeth**". Ei nod yw cadw terfysgwyr rhag ymosod ar yr Unol Daleithiau a'i chynghreiriaid, i atal llywodraethau rhag cynorthwyo terfysgwyr, a lledaenu rhyddid a democratiaeth i bedwar ban byd. Mae sawl gwlad wedi cynorthwyo'r UD yn ei hymdrechion, gan gynnwys y Deyrnas Unedig.
- Y weithred bwysig gyntaf oedd **yr ymosodiad ar Affganistan** ym mis Hydref 2001. Arweiniodd hyn at ddymchwel llywodraeth y Taliban, a fu'n llochesu Osama bin Laden ac aelodau eraill o Al-Qaeda. Yn ystod 2006, parhaodd yr ymladd rhwng y Taliban, milwyr Affganaidd a lluoedd tramor.
- Mae'r Unol Daleithiau yn honni bod ei **gweithrediadau yn Irac** (gweler y panel ar y chwith) yn rhan o'r rhyfel. Mae eraill yn amau a oedd gan Saddam Hussein gysylltiadau â'r drefn derfysgol, ond bellach mae gwrthryfelwyr yn Irac yn cynnal ymosodiadau yn rheolaidd.
- Ymhlith y mannau eraill sy'n achosi pryder mae: **Israel/Palestina**, lle mae llywodraeth Israel wedi cymeradwyo sawl mesur gwrthderfysgaeth (gan arwain at farwolaethau ymhlith sifiliaid); **Syria** a **Libanus**, y credir eu bod yn gartref i sawl corff terfysgol; ac **Indonesia**, lle mae grŵp Jemaah Islamiyah wedi lladd trwy ddefnyddio bomiau sawl tro.

## Ym mhob pen y mae piniwn

"Grym milwrol yw'r ffordd orau o ddod â therfysgaeth i ben."
"Trechu terfysgaeth yw'r nod bwysicaf yn y byd heddiw."
"Mae terfysgaeth o bob math yn drosedd yn erbyn y ddynolryw, ac nid oes byth modd ei chyfiawnhau."
"Mae'n iawn i arteithio pobl sydd dan amheuaeth o fod yn derfysgwyr, oherwydd mae diogelu bywydau pobl eraill yn bwysicach na hynny."
"Dylem ni geisio negodi gyda'r terfysgwyr."
"Mae lleihau tlodi byd-eang yn bwysicach na mynd i'r afael â therfysgaeth."
"Mae rhai terfysgwyr yn brwydro i wella bywydau pobl. Dylem ni eu galw yn ymladdwyr dros ryddid."



FFÔN/TEL 029 2022 8549 FFACS/FAX 029 2064 0333 E-BOST/E-MAIL cewc@wcia.org.uk CEWC-CYMRU Y DEML HEDDWCH/TEMPLE OF PEACE • PARC CATHAYS/CATHAYS PARK • CAERDYDD/CARDIFF • CF10 3AP